CYFARFOD: Y CYNGOR

DYDDIAD: **2 Mawrth 2017**

TEITL: **Pŵl Buddsoddi Cymru**

DIBEN**:** **Argymell Cytundeb Rhwng-Awdurdodau i'r Cyngor llawn**

AWDUR: **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Iwan Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol**

---

**Argymhellion:** Argymhellir bod y Cyngor yn:

1. Nodi cynnwys y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau (IAA) drafft sydd wedi'i amgáu yn Atodiad A ac yn dirprwyo caniatâd i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, i gymeradwyo a gweithredu fersiwn terfynol yr IAA.

2. Cymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor (y cyfeirir ato o hyn allan fel y Cyd-bwyllgor Llywodraethu) wedi cwblhau'r IAA y cyfeirir ato yn argymhelliad 1 uchod ac ar sail y cylch gorchwyl sydd ynghlwm.

3. Dirprwyo gweithrediad rhai swyddogaethau penodol i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu fel y nodir yn y cylch gorchwyl ac yn nodi'r swyddogaethau hynny sydd wedi'u cadw i'r Cyngor.

4. Cymeradwyo penodi Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau neu ei D(d)irprwy a enwebir gan y Pwyllgor Pensiynau i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu fel cynrychiolydd Cyngor Gwynedd.

5. Ble cyfyd gofyn penodol er rhoi effaith i delerau'r Cytundeb Rhwng-Awdurdodau dirprwyo i gynrychiolydd enwebedig awdurdod Cyngor Gwynedd i weithredu o fewn cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Llywodraethu er mwyn galluogi gweithredu unrhyw swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo.

6. Cymeradwyo bod Cyngor Sir Gâr (Cronfa Bensiwn Dyfed) yn gweithredu fel Cyngor Lletya gyda'r cyfrifoldebau sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau.

7. Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, i gytuno unrhyw fân addasiadau pellach i'r Cytundeb Rhwng-Awdurdodau.

**Pwrpas:**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cefndir y trefniadau pŵl buddsoddiadau ar draws yr wyth Cronfa Bensiwn Awdurdod Lleol yng Nghymru a'r angen i ymrwymo'n ffurfiol i gytundeb rhwng y cronfeydd i sefydlu trefniadau gweinyddol a llywodraethol i reoli'r trefniadau pŵl.

**1. Cefndir**

1.1 Cyngor Gwynedd yw awdurdod gweinyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) i Gymru a Lloegr. Mae swyddogaethau gwneud penderfyniadau'r Cyngor mewn perthynas â Phensiynau wedi'u dirprwyo yng Nghyfansoddiad y Cyngor i'r Pwyllgor Pensiynau a'r Cyngor. Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa yn cynnwys 48 o gyrff cyflogi sy'n cyfrannu ac yn darparu gwasanaethau i 16,152 o weithwyr, 8788 o bensiynwyr a 10,586 o fuddiolwyr gohiriedig. Mae'r gronfa yn rheoli asedau o tua £1.76bn. Amcan y Gronfa yw bodloni rhwymedigaethau pensiwn cyfredol a rhai'r dyfodol ei aelodau h.y. talu pensiynau cronedig aelodau pan fyddant yn ddyledus yn unol â Rheoliadau CPLlL.

1.2 Mae wyth Cronfa CPLlL yng Nghymru:

- Caerdydd a'r Fro
- Dinas a Sir Abertawe
- Clwyd
- Dyfed
- Gwent Fwyaf
- Gwynedd
- Powys
- Rhondda Cynon Taf

Mae cyfanswm gwerth asedau'r cronfeydd uchod tua £15bn.

1.3 Mae gan yr wyth cronfa CPLlL yng Nghymru draddodiad hir o weithio mewn modd cydweithredol dan oruchwyliaeth Is-grŵp Pensiynau Cymdeithas Trysoryddion Cymru (SWT). Er mwyn datblygu effeithiolrwydd a buddion pellach cydweithio, fe wnaeth yr Is-grŵp gyhoeddi adroddiad "Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru: Gweithio Gyda'n Gilydd" yn 2013 a wnaeth adnabod costau rheoli buddsoddiadau fel y maes ble byddai cydweithio yn cynhyrchu'r arbedion mwyaf sylweddol. Yna, fe wnaeth yr Is-grŵp gomisiynu Mercers Ltd i adnabod opsiynau ar gyfer buddsoddi ar y cyd ac ym mis Mai

2015 cyhoeddwyd eu hadroddiad oedd yn argymell Cerbyd Buddsoddi ar y Cyd (CIV).

1.4 Yng Nghyllideb Gorffennaf 2015, cyhoeddodd y Canghellor fwriad y Llywodraeth i weithio gydag awdurdodau gweinyddol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (y Cynllun) i sicrhau eu bod yn pŵlio buddsoddiadau er mwyn lleihau costau'n sylweddol, wrth gynnal perfformiad cyffredinol buddsoddi. Yna, gwahoddwyd awdurdodau i gyflwyno cynigion ar gyfer pŵlio y byddai'r Llywodraeth yn eu hasesu yn erbyn y meini prawf yn y ddogfen hon. Cyhoeddodd y Canghellor y dylai bob pŵl fod ar ffurf hyd at chwe Chronfa Gyfoeth Brydeinig, oll gydag asedau gwerth o leiaf £25bn a fyddai'n medru buddsoddi mewn isadeiledd a gyrru twf lleol.

1.5 Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd y Llywodraeth ei meini prawf a'i chanllawiau ar gyfer yr hyn roedd yn disgwyl ei weld yn cael sylw yn y cynigion roedd yn eu derbyn gan gronfeydd CPLlL yng nghyswllt eu cynigion pŵlio. Ystyriwyd hyn gan y Pwyllgor Pensiynau yn ei gyfarfod ym Medi 2015.

1.6 Yn dilyn gwaith helaeth gan Is-grŵp Pensiynau SWT a'r ymgynghorwyr a benodwyd, Hymans Robertson, ffurfiwyd cyflwyniad ar y cyd yng nghyswllt yr wyth Cronfa Bensiwn yng Nghymru. Mynychodd enwebai Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau'r cyfarfod Cadeiryddion ar y Cyd i gytuno ar y cyflwyniad a derbyniodd y Pwyllgor Pensiynau wybodaeth ffurfiol am y cyflwyniad terfynol ar 9 Mehefin 2016 . Anfonwyd y Cyflwyniad Terfynol at Lywodraeth EM ar 15 Gorffennaf 2016.

## 2 Cyflwyniad yng nghyswllt yr wyth Cronfa Bensiwn yng Nghymru

2.1 Er nad oedd y cyflwyniad yng nghyswllt yr wyth cronfa yng Nghymru yn bodloni'r meini prawf gofynnol yn nhermau ei faint, roedd yn gyflwyniad grymus yn nhermau ei wahaniaethau ieithyddol, diwylliannol a rheolaethol a, law yn llaw â gwaith cydweithio toreithiog sydd eisoes wedi'i wneud gan Is-grŵp Pensiynau SWT, perswadiwyd Llywodraeth EM i gymeradwyo'r cyflwyniad ym mis Tachwedd 2016.

2.2 Mae cyflwyniad ar y cyd Cymru yn cynnig gweithio gyda Gweithredwr Pŵl Trydydd Parti a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) er mwyn darparu'r fframwaith a'r mecanwaith Rheoleiddio i reoli a lleihau costau rheoli buddsoddiadau ar gyfer y cronfeydd.

## 3 Y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau a Threfn Lywodraethol

3.1 Dylid pwysleisio nad yw'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad ar y cyd yn diwygio cyfrifoldeb statudol pob Awdurdod Gweinyddol yng nghyswllt ei allu i osod ei strategaeth clustnodi asedau, ariannu a buddsoddi.

3.2 Wrth ddatblygu'r cynigion a bwrw ymlaen â'r gwaith hyd heddiw, mae'r wyth Cronfa Bensiwn yng Nghymru wedi gweithredu dan Femorandwm o

Ddealltwriaeth nad yw'n gyfreithiol rwymol.

3.3 Wrth i'r prosiect symud ymlaen i'r cam nesaf o weithio gyda gweithredwr ACS a benodir, mae gofyn ffurfioli'r fframwaith llywodraethu ar y cyd a gwneud penderfyniadau y bydd yr wyth cronfa bensiwn yn gweithio o'i fewn wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau llwyddiant a gwytnwch hirdymor gwaith y Pŵl.

3.4 Mae'r Cytundeb Rhwng-Awdurdodau (IAA), a atodir i'r adroddiad hwn fel Atodiad A, wedi'i ddatblygu fel y fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer Pŵl Buddsoddi Cymru. Mae'r IAA yn nodi trefniadau llywodraethu'r Pŵl, hawliau a rhwymedigaethau'r wyth awdurdod sy'n cymryd rhan a'r pwerau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u dirprwyo i'r Cyd-bwyllgor.

3.5 Mae cyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgor wedi'u rhestru yn Atodlen 4 yr IAA ac maent yn cynnwys:

- Monitro perfformiad Gweithredwr y Pŵl
- Gwneud penderfyniadau ar is-gronfeydd dosbarth asedau iddynt fod ar gael gan y Gweithredwr er mwyn gweithredu strategaethau buddsoddi unigol yr wyth cronfa
- Darparu atebolrwydd i'r cronfeydd sy'n cymryd rhan ar reoli'r Pŵl
- Bod yn gyfrifol am adrodd am y Pŵl i Lywodraeth y DU a rhanddeiliaid eraill
- Goruchwylio'r Gweithgor Swyddogion

3.6 Bydd y Cyd-bwyllgor yn gweithredu ar sail 'Un Gronfa, Un Bleidlais'.

Mae'r IAA yn nodi cylch gorchwyl y Gweithgor Swyddogion a fydd yn gweithredu fel ymgynghorwyr i'r Cyd-bwyllgor.

3.7 Dan y trefniadau newydd, bydd awdurdodau gweinyddu yn parhau i gadw rheolaeth dros osod eu strategaethau buddsoddi a chlustnodi asedau manwl. Mae hyn yn parhau i alluogi gosod nodweddion risg ac adenillion eang y strategaeth fuddsoddi ar y cyd â strategaeth ariannu gyffredinol pob cronfa bensiwn. Yna bydd cronfeydd yn buddsoddi mewn is-gronfeydd asedau y bydd Gweithredwr Pŵl Cymru yn sicrhau eu bod ar gael.

3.8 Dim ond gyda chytundeb yr wyth awdurdod cyfansoddol y gellir gwneud newidiadau i’r IAA neu ei derfynu.

## 4 Awdurdod Lletya (Corff Atebol)

4.1 Yn rhinwedd yr IAA, bydd un o'r wyth awdurdod yn gweithredu fel Awdurdod Lletya a Chorff Atebol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Bydd yr Awdurdod Lletya yn darparu’r gefnogaeth weinyddol a'r gefnogaeth ysgrifenyddol ar gyfer y Cyd-bwyllgor ac yn gweithredu penderfyniadau a

wneir gan y Cyd-bwyllgor. Bydd yr Awdurdod Lletya yn cysylltu â’r Gweithredwr ar ran yr awdurdodau sy'n cymryd rhan a bydd hefyd yn gyfrifol am drefnu hyfforddiant i aelodau'r Cyd-bwyllgor.

4.2 Cynigir bod Cyngor Sir Gâr (awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed) yn gweithredu fel Awdurdod Lletya a Chorff Atebol ar gyfer Pŵl Buddsoddi Cymru.

**5 Amserlen y Prosiect**

5.1 Mae'r dogfennau tendr ar gyfer caffael Gweithredwr ACS yn cael eu cwblhau yn barod i'w cyhoeddi gyda'r bwriad i'r Cyd-bwyllgor benodi yn Haf 2017 ac i'r asedau cychwynnol a gynllunnir gael eu dal o fewn yr ACS o fis Ebrill 2018.

**6 Goblygiadau Cyfreithiol**

6.1 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (fel y'i diwygiwyd) sy'n gosod y fframwaith deddfwriaethol cyfredol ar gyfer buddsoddiadau'r gronfa bensiwn a wneir gan Awdurdodau Gweinyddu. Mae'r gyfraith sy'n llywodraethu pensiynau yn faes cymhleth ac arbenigol. Mae canllawiau'r Llywodraeth Genedlaethol yn nodi y caniateir pŵlio asedau CPLlL dan y gyfraith bresennol (ac wrth gwrs, mae canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) yn mynnu bod cronfeydd yn pŵlio).

**7 Goblygiadau Ariannol**

7.1 Cynigir bod costau 'gweinyddol' dan y trefniadau newydd, yn cynnwys costau llywodraethu'r Cyd-bwyllgor, yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng yr wyth cronfa yng Nghymru, ond bod costau buddsoddi dilynol yn cael eu clustnodi i fuddsoddiadau penodol, yn gymesur â'r buddsoddiadau hynny.

**8 Goblygiadau Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

8.1 Dim

**ATODIADAU**

Atodiad A - Cytundeb Rhwng-Awdurdodau

**Dogfennau Cefndir**

*Local Government Pension Scheme: Investment Reform Criteria and Guidance*